

## Nodiadau i athrawon

Roedd prosiect 'Gwaddol y Gwrthwynebwy'r Cydwybodol' yn brosiect partneriaeth dan arweiniad Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, gan gynnwys Cymru dros Heddwch a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gyda chyllid gan Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog a Cadw. Gan weithio o gwmpas Llyn y Fan Fach ar ochr orllewinol y Bannau Brycheiniog, roedd y prosiect yn anelu at archwilio hanes adeiladu'r prif gyflenwad dŵr ac argae gan wrthwynebwy'r cydwybodol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae wedi denu pobl leol a phlant ysgol i ddarganfod archaeoleg a deall arwyddocâd y safle.

Mae'r prosiect hefyd wedi cynhyrchu'r adnodd addysg hwn. Yn ystod y prosiect, ymwelodd dwy ysgol uwchradd ac ysgol gynradd â'r safle diddorol hwn a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ystafell ddosbarth yn ymwneud â'u hymweliad. Gobeithio y bydd yr adnodd addysgol hwn yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion i annog a galluogi plant ysgol i ddarganfod arwyddocad hanesyddol a photensial addysgol eang.

Mae'r adnoddau wedi cael eu datblygu gan athro cymwys i weithio gyda chyfnod allweddol 3 er mwyn cyd-fynd â gwaith cwricwlwm am y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae gan y gwersi gymaint o gysylltiadau â'r cwricwlwm â phosibl, gan gynnwys Daearyddiaeth a Gwyddoniaeth. Efallai y bydd angen addasu rhai o'r adnoddau er mwyn gweddu i anghenion a grŵp oed eich dosbarth.

Cyn addysgu unrhyw rai o'r unedau, argymhellir eich bod yn ymweld â Llyn y Fan Fach er mwyn ymglyfarwyddo â'r safle.



## Ymweliadau â'r safle

Yn gynwysedig yn yr adnodd hwn mae taflen canllaw am y gwrthwynebwyd cydwybodol, sy'n cynnwys lleoliad y safleoedd ar gyfer ymweliadau dosbarth. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar-lein ar

<http://www.dyfedarchaeology.org.uk/>

Mae cyngor ar asesu risg wedi ei gynnwys yn y pecyn hwn.

Diolch am gymryd yr amser i lawrlwytho'r adnoddau. Pe bai gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau, cysylltwch. Anfonwch e-bost at [s.rees@dyfedarchaeology.org.uk](mailto:s.rees@dyfedarchaeology.org.uk)

Hoffai Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed gydnabod a diolch i'r bobl ganlynol am gael defnyddio eu ffotograffau a'u ffynonellau wrth greu'r adnodd addysgol hwn.

Archif Peter Davies – Casgliad Mary Walmsley

Llyfr llofnodion John Taylor- Swyddfa Cofnodion at gyfer Swydd Gaerlŷr, Caerlŷr a Rutland

